| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Ymchwil a Moesegau AU<br>HE Research & Ethics Policy |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 2 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / Staff / Myfyrwyr a Staff / Arall (rhowch fanylion)<br>Myfyrwyr |

### Cydraddoldeb ac Amrywiaeth / Equality & Diversity

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): / Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | *Polisi Ymchwil a Moesegau AU - Asesiad Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb ac Amrywiaeth Cam 1* |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar y Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. |

### Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen:**<br>**Document Owner:** | *Rheolwr Cydymffurfiaeth AU*<br>*HE Compliance Manager* | | |
| **Ymgynghoriad/**<br>**Consultation:** | *Grŵp Llywio Addysg Uwch a Mynediad*<br>*Cynrychiolwyr Myfyrwyr AU* | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo /**<br>Date Approved | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | | *Grŵp Llywio AU a Mynediad / HE & Access Steering Group 24/04/23* |
| | Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee: | | *26/04/23* |
| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: | Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | - |
| | | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | - |
| | | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | - |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | | - |
| **Dyddiad Adolygu:**<br>**Review Date:** | 26/04/26 | | |

Anfonwch y ddogfen wedi ei chymeradwyo i'w chyfieithu gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais Cyfieithu
Send approved document for Translation using the Translation Request Form

Rhifwch bob adran a pharagraff
Please number each section and paragraph

**Tabl Cynnwys**

**Polisi Ymchwil a Moesegau AU**


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cwmpas | 2 |
| 2. | Cyflwyniad a Phwrpas | 3 |
| 3. | Diffiniad Ymchwil | 3 |
| 4. | Asesu Risg | 3 |
| 5. | Cyfrifoldebau | 3 |
| 6. | Ymchwil sydd angen Cymeradwyaeth Allanol | 5 |
| 7. | Diogelu Data | 5 |
| 8. | Uniondeb Ymchwil | 5 |
| 9. | Canllawiau Pellach | 5 |
| 10. | Polisi Cwynion, Pryderon a Chanmoliaethau | 7 |
| 11. | Cyfathrebu a Dwyieithrwydd | 7 |
| 12. | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | 7 |


## 1. Cwmpas

1.1. Mae'r polisi yn berthnasol i holl gyrsiau Addysg Uwch (AU) Coleg Cambria ac i bawb sy'n rhan o'r ymchwil, oni bai bod Polisi yn ei le drwy bartner Prifysgol - gweler y dolenni isod.

| 1.2. Ymchwil Partneriaid y Brifysgol a Gwybodaeth Moesegau | |
|---|---|
| ***Prifysgol*** | ***Dolen at Bolisi Ymchwil a Moesegau*** |
| Prifysgol Aberystwyth | https://www.aber.ac.uk/cy/rbi/research/aber-research/good-practice/ |
| Prifysgol Bangor | https://www.bangor.ac.uk/governance-and-compliance/ethicsandresearchethics.php.cy |
| Prifysgol John Moores Lerpwl (LJMU) | https://www.ljmu.ac.uk/research/world-leading-research |
| Prifysgol Abertawe | https://www.swansea.ac.uk/cy/y-gyfraith/ymchwil-ysgol-y-gyfraith/moeseg-ymchwil/ |
| Prifysgol Caer | https://www.swansea.ac.uk/law/research/researchethics/ |
| Prifysgol Glyndŵr Wrecsam | https://www.glynhttps://www1.chester.ac.uk/research/integrity-governancedwr.ac.uk/en/Research/Ourresearch/ |

## 2. Cyflwyniad a Phwrpas

2.1. Rydym yn disgwyl i'r holl waith ymchwil a gyflawnir gan staff, myfyrwyr neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r ymchwil ar ran Coleg Cambria, gael ei gynnal i'r safonau moesegol uchaf ac yn unol â gofynion deddfwriaeth a pholisi cyfredol.

2.2. Mae'r Polisi hwn yn ei le i ddiogelu pawb sy'n cymryd rhan yn y gwaith ymchwil, gan gynnwys, ond nid yn gyfyngedig i;

2.2.1. Enw da'r coleg;
2.2.2. Diogelwch pawb sy'n cymryd rhan;
2.2.3. Urddas, hawliau a llesiant y cyfranogwyr;
2.2.4. Sicrhau ei fod yn gyfreithlon;
2.2.5. Lleihau risgiau sy'n codi ar gyfer y gwaith ymchwil;
2.2.6. Sicrhau ymwybyddiaeth foesegol;
2.2.7. Effaith ar yr amgylchedd.

## 3. Diffiniad Ymchwil

3.1. Astudiaeth fanwl o bwnc, yn, enwedig er mwyn darganfod gwybodaeth (newydd) neu ddod i ddealltwriaeth (newydd) . (https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/research)

3.2. Ymchwiliad systematig ac astudiaeth i ddeunyddiau a ffynonellau er mwyn sefydlu ffeithiau a dod i gasgliadau newydd. (https://www.lexico.com/en/definition/research)

## 4. Asesu Risg

4.1. Mae angen mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r holl brosiectau. Dylid tynnu sylw'r Tîm Iechyd a Diogelwch perthnasol at y gofyn am asesiadau risg, a fydd yn cynorthwyo wrth eu datblygu gan ddefnyddio'r templed a ddarperir.

## 5. Cyfrifoldebau

5.1. Amlinellir isod y cyfrifoldebau o ran ymgynghori, cymeradwyo a gweithredu'r Polisi.

| 5.2. Cyfrifoldebau | |
|---|---|
| ***Prifysgol*** | ***Dolen i Bolisi Ymchwil a Moesegau*** |
| Grŵp Llywio AU a Mynediad (gan gynnwys Cynrychiolwyr Myfyrwyr AU) | 1. Cymeradwyo Polisi<br>2. Cymeradwyo Prosiectau Ymchwil trwy banel o 3 aelod, a gynullwyd gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth AU / aelod o'r Tîm AU. |
| Arweinydd Rhaglen AU | 1. Darparu cyngor ac arweinad i ddysgwyr.<br>2. Darparu cymeradwyaeth gychwynnol o'r Ffurflen Ymchwil a |

| | |
|---|---|
| | Moesegau AU.<br>3. Cyflwyno'r ffurflen yn dilyn cymeradwyaeth i he@cambria.ac.uk |
| Dysgwr | 1. Syniad yr ymchwil.<br>2. Trafod y syniad gydag Arweinydd Rhaglen AU<br>3. Cwbhlau Ffurflen Cymeradwyo Ymchwil a Moesegau AU<br>4. Cyflwyno ffurflen Cymeradwyo Ymchwil a Moesegau AU i'r Arweinydd Rhaglen AU i gael cymeradwyaeth |
| Ymchwilwyr (gan gynnwys Ymchwilwyr sy'n Fyfyrwyr) | 1. Yn gyfrifol am wneud y cais ac aros nes rhoddir cymeradwyaeth lawn cyn dechrau eu prosiect. Maent hefyd yn gyfrifol am uniondeb y prosiect ymchwil (gweler yr adran 'Uniondeb Ymchwil' isod).<br>2. Yn gyfrifol am ymgyfarwyddo eu hunain â'r Polisi (neu Bolisi Partner Prifysgol), y gofynion ar gyfer adolygu a chymeradwyo ymchwil yn foesegol a chynnal yr astudiaeth yn unol ag arferion ymchwil da a chanllawiau moesegol proffesiynol sy'n berthnasol i'w maes pwnc.<br>3. Mae ymchwilwyr yn gyfrifol am gael caniatâd gan gyfranogwyr gan ddefnyddio'r Ffurflen Ganiatâd Ymchwil AU. Dim ond ar ôl cael cymeradwyaeth i'r prosiect fynd yn ei flaen y gellir gwneud hyn. Dylid storio'r rhain yn ddiogel ac yn unol â Diogelu Data/GDPR fel y nodir yn y Polisi hwn. |
| Cynorthwywyr/ Partneriaid Ymchwil | Dylent sicrhau bod unrhyw waith a wnânt ar brosiect ymchwil yn cael ei gymeradwyo'n llawn yn foesegol. |
| Goruchwylwyr ar gyfer Ymchwilwyr sy'n Fyfyrwyr | Yn gyfrifol am sicrhau bod myfyrwyr yn ymwybodol o'r Polisi (neu Bolisi Partneriaid Prifysgol), bod angen cymeradwyaeth lawn cyn dechrau unrhyw ymchwil a bod y Polisi yn cael ei dilyn gan fyfyrwyr. |

5.3. Lle gofynnir i 3 aelod o'r Grŵp Gweithredol Llywio AU a Mynediad (heb gynnwys y Rheolwr Cydymffurfiaeth AU) gymeradwyo unrhyw Geisiadau Ymchwil o bell o fewn 10 diwrnod gwaith i'w cael gan y Rheolwr Cydymffurfiaeth AU neu aelod arall o'r Tîm AU. Ni fydd aelodau o'r grŵp a ofynnir i gymeradwyo'r Ymchwil yn cymryd rhan uniongyrchol yn y Gyfarwyddiaeth lle mae'r ymchwil yn rhan ohoni, na chymryd rhan uniongyrchol yn unrhyw un o'r camau cymeradwyo eraill. Bydd y Partneriaethau Addysg Uwch a'r Rheolwr Cydymffurfio yn cydlynu cymeradwyaeth o bell ac yn cadw cofnodion priodol.

## 6. Ymchwil sydd angen Cymeradwyaeth Allanol

6.1. Mae angen cymeradwyaeth allanol ar rai mathau o brosiectau ymchwil. Gall hyn fod oherwydd gofynion trwyddedu a deddfwriaethol. Rhestrir rhai enghreifftiau isod. Nodwch nad yw'r rhestr hon yn gyflawn a chyfrifoldeb yr aelod o staff sy'n ceisio am gymeradwyaeth yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ddeddfwriaeth a gofynion perthnasol;

6.1.1. HNS a Gofal Cymdeithasol;
6.1.2. Deddf Meinweoedd Dynol (2004);
6.1.3. Deddf Galluedd Meddyliol (2005);
6.1.4. Ymchwil cysylltiedig ag iechyd sy'n ymwneud â charcharorion;

6.1.5. Ymchwiliadau clinigol o ddyfeisiau meddygol;
6.1.6. Cyfranogwyr nad ydynt yn fodau dynol.

## 7. Diogelu Data

7.1. Yn unol ag Amserlen 2 Rhan 6 y Ddeddf Diogelu Data 2018 - yn seiliedig ar Erthygl 89 o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) - ni fydd canlyniadau'r ymchwil neu unrhyw ystadegau dilynol *"ar gael mewn modd sy'n nodi pwnc data".*

7.2. Bydd data personol a gesglir ar gyfer cyflawni'r prosiect ymchwil yn cael ei drin yn unol â'n Polisi Diogelu Data a dim ond drwy gydol y prosiect y caiff ei gadw, yna bydd yn cael ei ddileu neu ei ddinistrio ar ôl cwblhau'r prosiect.

7.3. Bydd ffurflenni caniatâd a gwblhawyd gan gyfranogwyr yn cael eu cadw am byth ar ffurf ddigidol. Dylid sganio'r rhain yn electronig i HE@cambria.ac.uk.

## 8. Uniondeb Ymchwil

8.1. Dylai ymchwilwyr sicrhau bod y gweithgaredd ymchwil arfaethedig yn cydymffurfio â'r egwyddorion arfer da fel y nodwyd yn y Cod Ymarfer Ymchwil y Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU - https://ukrio.org/publications/code-of-practice-for-research/. Mae hwn yn gosod cyfrifoldebau a gwerthoedd sy'n berthnasol i ymchwil.

8.2. Cwblhewch y Rhestr Wirio Awgrymedig UKRIO ar gyfer Ymchwilwyr ar gyfer eich prosiect cyn i chi gwblhau'r Ffurflen Cymeradwyo Ymchwilio a Moesegau AU.

## 9. Canllawiau Pellach

9.1. Rhaid i ymchwilwyr fod yn ymwybodol o'r holl ganllawiau a pholisi uniondeb ymchwil perthnasol a chydymffurfio â nhw (gan gynnwys Canllawiau a gofynion Partner Prifysgol). Dylai ymchwilwyr fod yn ymwybodol hefyd o'u canllawiau proffesiynol perthnasol a chydymffurfio â nhw.

9.2. Canllawiau Arferion Ymchwil Da Cyffredinol

9.2.1. Cod Ymarfer Swyddfa Uniondeb Ymchwil y DU ar gyfer Ymchwil: http://www.ukrio.org/publications/code-of-practice-for-research/

9.2.2. Polisi a Chanllawiau Cynghorau Ymchwil y DU ar Lywodraethu Ymddygiad Ymchwil Da: https://www.ed.ac.uk/files/imports/fileManager/RCUKPolicyandGuidelinesonGovernanceofGoodResearchPracticeFebruary2013.pdf

9.2.3. Concordat Prifysgolion y DU i Gefnogi Uniondeb Ymchwil: http://www.universitiesuk.ac.uk/highereducation/Pages/Theconcordattosupportresearchintegrity.aspx

9.3. Codau Ymarfer Proffesiynol

9.3.1. Cod Moeseg Ymchwil Dynol Cymdeithas Seicolegol Prydain: https://www.bps.org.uk/guideline/bps-code-human-research-ethics

9.3.2. Canllawiau Cymdeithas Gymdeithasegol Prydain ar Ymchwil Moesegol: https://www.britsoc.co.uk/publications/ethics/

9.3.3. Cymdeithas Anthropolegwyr Cymdeithasol y DU a Chanllawiau Moesegol y Gymanwlad ar gyfer Arfer Ymchwil Da: http://www.theasa.org/downloads/ASA%20ethics%20guidelines%202011.pdf

9.3.4. Canllawiau Moesegol Cymdeithas Ymchwil Addysgol Prydain: https://www.bera.ac.uk/publication/ethical-guidelines-for-educational-research-2018

9.3.5. Safonau Moesegol Cymdeithas Ymchwil y Farchnad: https://www.mrs.org.uk/standards/guidelines.htm

9.3.6. Canllawiau Arfer Dda y Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol : https://the-sra.org.uk/SRA/SRA/Resources/Good-Practice.aspx?hkey=ccb6430d-24a0-4229-8074-637d54e97a5d

9.3.7. Prosiect RESPECT y Comisiwn Ewropeaidd (Codau Proffesiynol a Moesegol ar gyfer Ymchwil Gymdeithasol-Economaidd sy'n Gysylltiedig â Thechnoleg): https://the-sra.org.uk/SRA/SRA/Ethics/The%20RESPECT%20project.aspx

9.4. Ymchwil Feddygol

9.4.1. Fframwaith Llywodraethu Ymchwil yr Adran Iechyd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol: https://www.gov.uk/government/publications/research-governance-framework-for-health-and-social-care-second-edition

9.4.2. Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol: https://www.hra.nhs.uk/about-us/committees-and-services/res-and-recs/

9.5. Cynghorau Ymchwil

9.5.1. Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau: https://www.ukri.org/councils/ahrc/

9.5.2. Cyngor Ymchwil Biotechnoleg a Gwyddorau Biolegol: https://www.ukri.org/councils/bbsrc/

9.5.3. Cyngor Ymchwil Economig a Chymdeithasol: https://www.ukri.org/councils/esrc/

9.5.4. Cyngor Ymchwil Meddygol: https://www.ukri.org/councils/mrc/

9.5.5. Cyngor Ymchwil Amgylchedd Naturiol: https://www.ukri.org/councils/nerc/

## 10. Polisi Cwynion, Pryderon a Chanmoliaeth

10.1. I ddechrau, gallwch siarad yn uniongyrchol â'r staff dan sylw. Os na allwch ddatrys eich cwyn yn y modd hwn neu os oes gennych unrhyw bryderon am unrhyw un o'n prosiectau ymchwil, cyfeiriwch at ein Polisi Cwynion, Pryderon a Chanmoliaeth sydd ar gael yma.

## 11. <u>Cyfathrebu a Dwyieithrwydd</u>

11.1. Mae'r Polisi a'r ffurflenni cysylltiedig wedi'u cyfieithu ac maent ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth ddrafftio'r Polisi hwn a gellir ei weld ar glawr y ddogfen.

## 12. <u>Cydraddoldeb ac Amrywiaeth</u>

12.1. Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wrth ddrafftio'r Polisi hwn a gellir ei weld ar glawr y ddogfen.